Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Hydref 2017

Amser: 09.32 – 11.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4425

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Eluned Morgan AC David Rees AC Steffan Lewis AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Victoria Winckler, Sefydliad Bevan Auriol Miller, Sefydliad Materion Cymreig
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Glerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd) Helen Jones (Ymchwilydd) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN1 - Llythyr gan y Dr Ed Poole, Canolfan Llywodraethiant Cymru at y Cadeirydd - cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 - 16 Hydref 2017

3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Auriol Miller, Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig; a Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19: trafod y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Goblygiadau ariannol Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod goblygiadau ariannol Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a chytunodd i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i gyfarfod ar gyfer gwaith craffu pellach.

7 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): materion a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymateb i'r materion a godwyd.

8 Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018-19: Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.